**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

6 Ionaawr 2022

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesurau Dros Dro) (Coronafeirws) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Daeth yr OS a enwir uchod oedd yn diwygio Rheoliad Cadw (UE) 2020/466 i ben ar 31 Rhagfyr 2021. Mae gofyn iddo ganiatáu i fesurau dros dro penodol i'r system o reolaethau swyddogol a weithredir o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws barhau tan 1 Gorffennaf 2022.

O ran Cymru, mae'r diwygiad yn rhoi'r gallu i awdurdodau cymwys barhau i gyflwyno mesurau dros dro i helpu i atal tarfu ar y gadwyn cyflenwi bwyd, gan sicrhau y gellir parhau i gynnal rheolaethau swyddogol yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol ehangach a gweithdrefnau a roddir ar waith i ddelio â phrinder staff o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

Mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a chafodd ei osod gerbron y Senedd ar 4 Ionawr 2022 gyda dyddiad cychwyn o 30 Rhagfyr 2021. Esboniodd Llywodraeth y DU mai problemau gweithdrefnol ynghylch cael caniatâd dros y gwyliau oedd y rheswm dros ôl-ddyddio ei ddyddiad dod i rym, a hefyd er mwyn sicrhau bod y mesurau dros dro'n parhau'n gyfreithlon.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi, gan fod y diwygiadau hyn yn hawddfreintiau brys dros dro, fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd, yn unol ag Erthygl 3(2B)(b)(i) o Reoliad Cadw (UE) 2017/625, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr OS hwn mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn https://senedd.cymru/media/q40bwmoc/ws-ld14807-w.pdf

Fel arfer, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu ar faterion sydd â chymhwysedd datganoledig; fodd bynnag, yn yr achos hwn rwy'n rhoi fy nghaniatâd gan fod angen dybryd gwneud y newidiadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2021. Rhoddais fy nghaniatâd i estyniadau cyfatebol i'r rheoliadau hyn ym mis Ionawr a mis Mai eleni.

Mae'r mesurau hyn yn rhai dros dro ac nid ydynt yn diwygio deddfwriaeth bresennol Cymru. Ceir Fframweithiau Cyffredin o fewn y DU ym meysydd polisi Iechyd a Lles Anifeiliaid, Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, ac Iechyd Planhigion sy'n darparu trefniadau llywodraethu cadarn. Mae consensws rhwng swyddogion polisi pob llywodraeth ym Mrydain

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fawr fod y mesurau hyn yn fuddiol, yng nghyd-destun y pryderon cynyddol mewn perthynas â Covid-19 a’r pwysau ehangach ar yr awdurdodau sy'n gyfrifol am y rheolaethau swyddogol. Bydd y mesurau hyn yn helpu i ddiogelu'r awdurdodau hyn a'u staff rhag rhagor o darfu.

Gallai peidio â bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth hon neu ei gohirio olygu na fyddai awdurdodau cymwys yng Nghymru yn elwa o fesurau rheoli swyddogol dros dro pan fo’u hangen. Gallai hyn, o bosibl, beryglu eu gallu i gynnal rheolaethau swyddogol tra'n lleihau'r risgiau i staff rhag Covid-19 ar adeg o bwysau ehangach ar y cyflenwad llafur yn sgil Ymadael â'r UE, yn enwedig yn y gweithlu milfeddygol o fewn y diwydiant cig.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Meddwl a Lles a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd